Chwaraeon RhCT
Sport RCT

@sportrct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

# Astudiaeth Achos

## Ysgol Gynradd Parc Aberdâr - Clwb Parc Hwyl

Roedd Ysgol Gynradd Parc Aberdâr eisiau datblygu clwb newydd ar ôl ysgol a oedd yn targedu plant sy'n llai tebygol o gymryd rhan mewn timau a chlybiau chwaraeon yn yr ysgol.

Roedd y Llysgenhadon Ifainc Efydd wedi gweithio gyda'r Cydlynydd Add Gorff i greu syniad Clwb Parc Hwyl. Dyma syniad a oedd yn defnyddio parc lleol. Penderfynon nhw leoli'r clwb ym Mharc Aberdâr, dyma gyfleuster gwych sydd ar stepen ddrws yr ysgol.

Bwriad y clwb oedd cynyddu swm y gweithgarwch corfforol roedd y disgyblion yn rhan ohono bob wythnos ac annog plant i ymweld â'r parc gyda'u teuluoedd y tu allan i oriau ysgol.

Dydy'r clwb ddim yn glwb chwaraeon arferol gan ei fod yn cynnwys gweithgareddau hwyl fel helfa hwyl a chwrs rhwystrau. Mae croeso i ddisgyblion o bob oed a gallu yn y clwb a chaiff rheini eu hannog i fynd gyda'u plant os ydyn nhw o oedran y cyfnod sylfaen.

### Pam wnaethon nhw hyn?

- Gwella iechyd a lles y disgyblion
- Denu disgyblion sydd ddim yn hoff o chwaraeon
- Darparu ffordd arall o fwynhau gweithgarwch corfforol

> *"Mae'r plant wedi gweithio mewn grwpiau i ddatrys problemau, rhannu syniadau a helpu'i gilydd. Mae'r plant wedi magu hyder, datblygu sgiliau a meithrin perthnasau."*

**3** Athro yn cymryd rhan

**39** Plentyn yn cymryd rhan

**18** Bachgen

**21** Merch

**68%** wedi gwneud ffrindiau newydd

**64%** yn teimlo'n fwy hyderus

**68%** yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt

**64%** o'r plant bellach yn chwarae'n fwy aml

RHONDDA CYNON TAF